



Joint Council for  
Qualifications

**Cynhyrchwyd ar ran: AQA, CCEA, OCR, Pearson a CBAC**

**Rhybudd i Ganolfannau – cynllun arholiadau wrth gefn/polisi arholiadau**

**(At sylw penaethiaid canolfannau, uwch arweinwyr a swyddogion arholiadau)**

**Rhaid** i bob canolfan fod â chynllun arholiadau wrth gefn/polisi arholiadau ar ffeil i'w harchwilio.

Dylai cynllun arholiadau wrth gefn/polisi arholiadau ymdrin â phob agwedd ar weinyddu arholiadau. Bydd yn caniatáu i uwch arweinwyr fod â chynllun wrth gefn cadarn yn ei le a fydd wedyn yn lleihau'r risg i drefn weinyddu'r arholiadau ac unrhyw effaith anffafriol ar fyfyrwyr, pe bai pennaeth y ganolfan, uwch arweinydd/arweinwyr perthnasol, y swyddog arholiadau neu aelod arall o staff sy'n allweddol i'r broses arholiadau yn absennol yn ystod adeg hanfodol o'r gylchred arholiadau.

Er mwyn lleihau biwrocratiaeth a baich ar ysgolion a cholegau, ni fydd fformat neu dempled penodol yn cael ei bennu. Credwn mai uwch arweinwyr mewn ysgolion a cholegau sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar eu cynllun arholiadau wrth gefn/polisi arholiadau eu hunain.

Mae cynllun wrth gefn ar y cyd i'r system arholiadau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, sydd ar gael i'w lwytho i lawr o wefan Ofqual, yn fan cychwyn da: (<https://www.gov.uk/government/publications/exam-system-Contingency-plan-England-Wales-and-Northern-Ireland>). Bydd yn darparu fframwaith ar gyfer uwch arweinwyr i greu a siapia cynllun/polisi yng ngoleuni eu hamgylchiadau lleol.